# Adroddiad Blynyddol 2020/21

Canllaw

## Ein Cenhadaeth

***Galluogi pobl i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau***



Mae Canllaw yn darparu gwasanaethau tai ac atebion ymarferol mewn ymateb i anghenion tai pobl hŷn neu bobl fregus lleol.

Drwy wrando ar yr unigolyn, darparwn cyngor a gwybodaeth priodol i rhoi opsiynau iddynt gwenud penderfyniadau gwybodus.

Gan weithredu ar draws Gwynedd a Ynys Mon, darparwn gwasanaethau wedi'w deilwrio i'w anghenion fydd yn eu galluogi fyw'n annibynnol mewn cartref pwrpasol a diogel.



Canllaw

Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn

Canllaw Addasu

Canllaw Technegol

Gwasanaeth rhad ac am ddim i bobl 60 oed a drosodd i'w cynghori a chefnogi i gynnal, gwella neu addasu eu cartrefi. Yn benodol yn yr sector breifat, ac wedi'w ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaeth fasnachol o gynnal addasiadau priodol yng nghartrefi pobl hŷn neu bobl fregus, er mwyn iddynt gynnal eu hanibynniaeth.

Gwasanaeth proffesiynol o ddylunio, cynllunio, archwilio a goruchwylio gwaith adeiladu, boed gwaith mawr neu fach. Yn gwasanaethu cleientiaid sy'n bobl hŷn neu bobl fregus.









# Blwyddyn heriol arall

Gyda'r pandemig Covid-19 yn parhau yn ystod 2021, roedd yn parhau i fod yn gyfnod heriol i bawb. Fel gweithwyr allweddol roedd ein gwasanaethau mor bwysig ag erioed i ddiogelu'r rhai mwyaf bregus gartref.

Rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer pobl hŷn a bregus, blaenoriaethu'r agenda ataliol a chefnogaeth i gynnal eu hannibyniaeth. Cydweithio gyda'n partneriaid yn y sector tai, gofal cymdeithasol ac iechyd, rydym yn ymglymedig mewn nifer o anghenion unigolion. O waith trwsio ac addasu tai, cyngor a gwybodaeth, uchafu incwm cleient, cynorthwyo ar ddychweliad claf o'r ysbyty, cefnogaeth i rai ag nam synhwyraidd, i adnabod gwasanaethau cefnogaeth gymunedol leol.

Llynedd bu i ni **gynorthwyo bron i 3,000 bobl hŷn a bregus** yr ardal i fuddsoddi dros £440,000 i drwsio, addasu a gwella eu cartrefi, er mwyn cynnal amgylchedd clyd a diogel iddynt.


Cyflawnodd **Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn** 892 o asesiadau cartref a llwyddo i ddenu dros £264,000 o incwm ychwanegol ar fudd-daliadau i'n cleientiaid yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gwasanaeth **Ysbyty i Gartref Iachach** yn cynorthwyo dychweliad diogel a phrydlon i gleifion o Ysbyty Gwynedd, ynghyd ag ysbytai cymunedol lleol. Bu i'r Swyddog Maes ddelio ag 347 o gleifion wedi eu cynorthwyo neu alluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel o'r ysbyty. Arbedwyd dros 1,700 o ddyddiau gwely i'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i ymyrraeth y gwasanaeth arbennig yma.

Mae'r cynllun **Ymdopi'n Well** wedi cefnogi 126 o bobl gyda nam synhwyraidd i gynnal eu hannibyniaeth gartref. Mae'r gwasanaeth Ymdopi'n Well yn rhoi cyngor a gwybodaeth am ddim i bobl hyn sydd â chyflyrau fel trwm eu clyw, gwan eu golwg, neu sydd â dementia neu wedi cael strôc.

Rydym hefyd wedi cychwyn ar brosiect **Ynni 70+ Cymru**, sy'n rhoi cyngor a chymorth ar dechnegau arbed ynni cartref, fel gall pobl hyn cynhesu eu cartrefi i dros 70F - hanfodol yn yr hinsawdd sydd ohoni.


Mae'r gwasanaeth ymarferol **Canllaw Addasu** wedi cyflawni dros 2,000 o waith addasu cartrefi pobl hyn a bregus, o fân addasiadau fel canllawiau a rampiau, i addasiadau mawr fel cawod yn lle bath ac estyniadau pwrpasol.




Gofal a Thrwsio Gwynedd and Môn
Y Gwasanaeth Tai i Bobl Hyn
Rhowch ganiad i ni ar 0300 111 3333
£264,350
Cyfanswm yr incwm ychwanegol rydym wedi ei godi, gyda £29,379 yn ôl-daliadau
Rydym yn hwyluso gwaith atgyweirio cartrefa gwaith Cynnal a chadw gwerth
£440,559
2,956
Nifer y bobl a gafodd help gennym
347
**AGI - client wedi cael cymorth
347
*RAB – nifer o waith wedi cynorthwyo gyda rhyddhau or ysbyty
£23,679
o gyllid wedi ei dderbyn gan elusennau tuag at waith
757
*RAB - nifer o waith sydd wedi atal mynediad i ysbyty
450
**AGI - addasiadau wedi ei wneud i gartrefi
1,104
*RAB - 1,104 wedi cael cymorth i addasu eu cartrefi i'w galluogi i barhau fyw'n Annibynnol
892
asesiadau cartref wedi eu gwneud
1,704
diwrnod gwely wedi ei safio i BCUHB
£62,901
**AGI - Gwerth y gwaith wedi ei gwblhau - £62,901
Canllaw
Gwasanaeth a rheoli'r gan Canllaw (Eryri) Cyf
Ffigyrau 2021/ 2022
* RAB - Rhaglen Addasiadau Brys **AGI - Adref i Gartref Iachach
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Ysbyty i Gartref Iachach  (Ysbyty Gwynedd)

Mae’n Swyddog Maes, yn Ysbyty Gwynedd, yn gweithio’n uniongyrchol gyda timau ysbyty a chleifion i ddatrys problemau tai gall arwain i gohirio rhyddhau o‘r ysbyty lle bydd claf yn feddygol iach i adael.
Gall y Swyddog Maes cael mynediad i gyllid uniongyrchol i ariannu gwaith yn gyflym, bydd yn golygu i’r claf cael ddychwelyd i gartref diogel yn gynt.






## Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn ddatrysiad i broblem.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda staff ysbytai, cleifion a'u teuluoedd i adnabod a datrys problemau tai ac amgylcheddol a fyddai fel arall yn atal rhyddhau o ysbyty.

Mae'n glod i ymroddiad staff Gofal a Thrwsio, yn symud o waith yn y gymuned i waith mewn lleoliadau iechyd dan bwysau mawr, y tyfodd gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach o hadau bach i wasanaeth sylweddol sy'n dal i dyfu. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb reddf cyd-gynhyrchiol staff rheng flaen y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a gydnabu botensial y cynnig. Mae'r gwerthusiad hwn yn olrhain datblygiad ac ehangiad y gwasanaeth dros y tair blynedd ddiwethaf i ddangos y gwahaniaeth cadarnhaol a wnaed i les cleifion, llif cleifion, rhyddhau cyflymach o ofal a llai o achosion gorfod mynd yn ôl i ysbyty.

Mae Ysbyty i Gartref Iachach hefyd yn ddewis strategol clir ar gyfer cynllunwyr iechyd. Mae'r gwasanaeth yn gydnaws ag uchelgais Cymru Iachach ac yn fwy diweddar Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn cynnwys llwybrau o fewn Rhyddhau i Wella yna Asesu y gobeithiwn fydd yn helpu Gofal a Thrwsio i gadw partneriaeth hirdymor gyda'r GIG i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**Chris Jones, Care & Repair Cymru**



# Canlyniad i'r claf

**Mae Mr J yn 84 oed, yn byw ar ben ei hun a chafodd ei dderbyn i'r adran Damweiniau ac Argyfwng yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar ôl cwympo yn ei gartref. Mae ganddo arthritis gwael iawn.**

Cyn ei ryddhau o'r ysbyty, cafodd Swyddog Maes Ysbyty i Gartref Iachach atgyfeiriad gan y Therapydd Galwedigaethol ar ddyletswydd yn yr Adran Damweiniau ac Argyfwng am ganllaw banister ychwanegol a gosod canllaw ar y wal yn ymyl y toiled yn yr ystafell ymolchi lawr grisiau. Gwnaed y gwaith hwn gan Canllaw Addasu ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, wedi'i gyllido drwy'r Rhaglen Addasiadau Brys ar gost o £116.

Ar ôl i'r gwaith dechreuol gael ei gwblhau, cynhaliodd y Swyddog Maes Wiriad Cartref Iach a gwiriad budd-daliadau. Daeth yn amlwg fod gan Mr J nifer o addasiadau bach o amgylch y tŷ a osodwyd yn flaenorol gan Gofal a Thrwsio ar gyfer anghenion ei wraig, ond roedd hi wedi marw y flwyddyn flaenorol. Dywedodd Mr J ei fod yn ymdopi yn "weddol dda" ond wedi bod yn cael trafferthion ers tipyn gyda dim ond un canllaw banister ar y grisiau. Roedd y canllaw ychwanegol wedi bod yn "wirioneddol ddefnyddiol ac wedi rhoi cefnogaeth a hyder ychwanegol iddo" wrth ddefnyddio'r grisiau, ac roedd hynny'n gwneud iddo deimlo'n well.

Roedd Mr J yn eithaf amharod i ddechrau i hawlio unrhyw fudd-daliadau, felly rhoddodd y Swyddog Maes wybodaeth iddo ar Lwfans Gweini a sut y gallai yn awr hawlio Treth Cyngor un preswylydd (gan nad oedd wedi meddwl am hysbysu'r Cyngor ei fod yn byw ar ben ei hun bellach), gan addo ei ffonio'n ôl. Penderfynodd Mr J i fynd ymlaen gyda'r cyngor ar fudd-daliadau. Arweiniodd hyn at iddo dderbyn ad-daliad gan y Cyngor o £461 ac yna ostyngiad o 25% ar ei Dreth Gyngor yn y dyfodol. Bu ei hawliad am Lwfans Gweini yn llwyddiannus a chafodd swm unigol o £537.60 ac yna daliad wythnosol o £89.15.

# Llywodraethu Corfforaethol

Mae Canllaw (Eryri) Cyf yn gwmni cyfyngedig drwy warant, yn elusen ac yn gofrestredig gyda Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd y cwmni yn 1999 fel Gofal a Thrwsio Gwynedd Cyf dan ddogfen lywodraethol Memorandwm ac Erthyglau oedd yn sefydlu amcanion a phwerau'r cwmni elusennol. Diwygiwyd yr Erthyglau i ymgorffori'r asiantaeth Gofal a Thrwsio Môn yn 2009 gan ail-enwi'r cwmni yn Canllaw (Eryri) Cyf.

Mae Canllaw (Eryri) Cyf. yn is-gwmni i Grŵp Cynefin

## *Polisi Aelodaeth*

Anogir unigolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau lleol yng Ngwynedd ac Ynys Môn sydd â diddordeb, brwdfrydedd neu/a chyfrifoldeb ynglyn a hawliau lles, cymdeithasol ac unigol pobl hŷn a/neu pobl bregus, i ymaelodi a Canllaw (Eryri) Cyf. er mwyn i ni fod yn gorff atebol a chynrychioladol gydag aelodaeth sy'n adlewyrchu diddordebau y grwp cleient rydym yn eu gwasanaethu.

Ymdrechir i gyfranogi defnyddwyr y gwasanaeth i gymryd rhan yn rheolaeth y gwasanaeth.

Bydd gan bob aelod annibynnol yr hawl i geisio fod yn gyfarwyddwr etholedig ar y Bwrdd Rheoli. Cynhelir etholiad gan aelodau'r cwmni mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol o'r cwmni pan fydd llefydd gwag ar gael ar y Bwrdd Rheoli sydd heb eu neilltuo i gyfarwyddwyr ar ran yr aelod riant neu'r awdurdod lleol. Caiff ymgeisydd am etholiad ei enwebu mewn ysgrifen gan aelod o'r cwmni. Nid oes rhaid i gyfarwyddwr etholedig fod yn/neu ar ran aelod annibynnol.

*Gellir cael copi llawn o'r Polisi Aelodaeth a ffurflen gais drwy gysylltu a'r swyddfa gofrestredig.*

## *Llywodraethu*

Cyfarwyddir busnes y Cwmni gan **Fwrdd Rheoli gwirfoddol**. Y Bwrdd sydd a'r prif gyfrifoldeb dros lywodraethu effeithiol.

Fe wnaeth y Bwrdd Rheoli arolwg o'r prif risgiau sy'n wynebu'r cwmni. Sefydlwyd cofrestr risg a'i ddiweddaru o leiaf yn chwarterol. Sefydlwyd trefniadaethau priodol i liniaru'r risgiau sy'n wynebu'r cwmni. Mae'r ardaloedd a adnabyddir bydd angen blaenoriaeth wedi eu rhoi yn y Cynllun Busnes Strategol ac wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredol blynyddol.

Rydym yn cydymffurfio ag Cod Llywodraethiad Cartrefi Cymunedol Cymru.

## Aelodau’r Bwrdd Rheoli 2021/22

| | |
|---|---|
| **Timothy William-Jones** | *Cadeirydd* |
| **Brenda Roberts** | *Aelod annibynnol* |
| **Stephen Edwards** | *Aelod annibynnol* |
| **Geraint George** | *Grwp Cynefin* |
| **Claire Shiland** | *Grwp Cynefin* |
| **Bryn Ellis** | *Ysgrifennydd y cwmni* |

- Mae **Pwyllgor Llywodraethu y Grŵp** yn gweithredu fel pwyllgor ymgynghorol arbenigol i bob Bwrdd o fewn y Grŵp. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys monitro pob agwedd ar lywodraethu o fewn y Grŵp a chynorthwyo’r Byrddau i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol, safonau uniondeb ac arfer da. Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys Cadeiryddion pob Bwrdd a Phwyllgor y Grŵp.
- Mae **Pwyllgor Archwilio ac Risg y Grŵp** gyda’r prif rôl annibynnol i gyfrannu i prosesau’r Bwrdd o sicrhau systemau rheoli mewnol yn cael eu cynnal ac bod fframwaith effeithiol mewn lle ar rheoli risg.
- Mae **Pwyllgor Cyllid a Thwf y Grŵp** yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Grŵp trefniadau effeithiol mewn lle ar lywodraethant perfformiad ac rheolaeth ariannol, rheolaeth trysorlys ac buddsoddiadau cyfalaf.



Tim Jones - Cadeirydd

Cleientiaid yn datgan:

89% bod eu hannibyniaeth a llesiant wedi gwella

87% bod eu problem wedi cael ei ddatrys yn llwyr

98% yn fodlon iawn gyda’r gwasanaeth

99% yn fodlon a’r safon gwaith a gyflawnwyd

# Perfformiad ariannol

| CYFRIF INCWM A GWARIANT | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn yn diweddaru 31 Mawrth 2022** | | |
| | **Blwyddyn yn diweddaru 31 Mawrth 2022** | Blwyddyn yn diweddaru 31 Mawrth 2021 |
| | **£** | £ |
| Trosiant | **1,134,217** | 1,064,169 |
| Costau gweithredol | **(1,027,040)** | (993,682) |
| Gwarged gweithredol | **107,177** | 70,487 |
| Llog a dderbyniwyd ac incwm tebyg | **32** | 357 |
| Llog yn ddaliadwy ar y cynllun pensiwn | **(15,000)** | (6,000) |
| Gwarged am y flwyddyn | **92,209** | 64,844 |
| Incwm cynhwysfawr arall | **295,000** | (440,000) |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | **387,209** | (375,157) |

| MANTOLEN | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Asedau sefydlog | **17,513** | 15,726 |
| Asedau cyfredol | | |
| Dyledwyr | 188,752 | 208,404 |
| Stoc | 39,341 | 26,644 |
| Arian yn y banc | 425,415 | 312,662 |
| | **653,508** | 547,710 |
| Credydwyr: cyfanswm o fewn un flwyddyn | **(163,778)** | (100,281) |
| | **489,730** | 447,429 |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | **507,243** | 463,155 |
| Rhwymedigaeth cynllun pensiwn | **(356,944)** | (700,065) |
| Asedau net | **150,299** | (236,910) |
| Cyfalaf a Chronfeydd | | |
| Gronfeydd refeniw | 146,359 | (240,850) |
| Gronfeydd cyfyngedig | 3,940 | 3,940 |
| Cronfeydd y cwmni | **150,299** | (236,910) |

| **Swyddfa gofrestredig** | **Swyddfeydd eraill** |
|---|---|
| Ty Silyn | 8/9 Llys y Fedwen |
| Y Sgwar | Parc Menai |
| Penygroes | Bangor |
| Gwynedd LL54 6LY | Gwynedd LL57 4BL |


Canllaw


| | |
|---|---|
| Cwmni Cyfyngedig drwy Warant | No. 3699768 |
| Elusen Gofrestredig | No. 1075667 |

Gyda chefnogaeth gan:

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Grŵp Cynefin

Cyngor Gwynedd Council

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board